ARWEINYDD / LEADER

Cyng/Cllr. Charlie McCoubrey

Cyfeiriad Post / Postal Address: P.O. Box 1, Conwy, LL30 9GN

Gwirfoddolwyr y Trydydd Sector

01492 576065

cllr.charlie.mccoubrey@conwy.gov.uk

Eich Cyf / Your Ref:

Dyddiad / Date: 18/11/2021

Annwyl Wirfoddolwyr

Gwirfoddolwyr y Trydydd Sector

Hoffwn gymryd y cyfle hwn i ddiolch y trydydd sector am yr holl gymorth a chefnogaeth a ddarparwyd yn y 19 mis diwethaf ledled Bwrdeistref Sirol Conwy.

Gwnaeth gwirfoddolwyr gyfraniad aruthrol wrth gynnal eu cymunedau lleol a hoffwn roi gwybod ichi fod y Cyngor yn cydnabod ac yn gwerthfawrogi'r ymdrechion hynny.

Byddaf i ac eraill yn ddiolchgar am byth am yr ymrwymiad a'r ymroddiad a ddangosodd gwirfoddolwyr wrth helpu pobl leol a chymunedau.

Mae llawer o wirfoddolwyr wedi bod wrthi'n danfon bwyd, nôl meddyginiaeth neu gnocio ar ddrysau i weld fod pobl yn iawn, a bu'r ymdrechion hynny'n werthfawr y tu hwnt.

Ni welsom erioed gyfnod tebyg i hwn o'r blaen, a diolch i ddyfalbarhad ac anhunanoldeb ein gwirfoddolwyr lleol gallwn ymfalchïo'n fawr yn y ffordd rydym wedi ymateb ar y cyd i'r pandemig coronafeirws.

Gwn y bydd llawer ohonoch yn dal i weithio yn eich cymunedau ar ôl y cyfnod hwn ond am y tro, hoffwn ddiolch ichi unwaith eto am eich ymdrechion, a dymuno'r gorau oll ichi.

Diolch o galon.

Yn gywir

Y Cynghorydd Charlie McCoubrey
Arweinydd y Cyngor

Rydym yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ymateb i unrhyw ohebiaeth yn Gymraeg ac ni fydd hyn yn arwain at unrhyw oedi. We welcome correspondence in Welsh. We will respond to any correspondence in Welsh which will not lead to a delay.

Prif Switsfwrdd / Main Switchboard: 01492 574000
www.conwy.gov.uk
DX 24628 Conwy
Ni ddylid cyflwyno dogfennau llys drwy ffacs
Fax not to be used for serving proceedings
Minigyf neu Ffôn Testun / Minicom or Text Phone: 01492 515892

hyderus o ran anabledd CYFLOGWR

disability confident EMPLOYER